CYPE(6)-17-22 - Papur i'w nodi 16

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/1800/22

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

30 Awst 2022

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr pellach, dyddiedig 30 Mehefin 2022, ynglŷn a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i blant y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

**Casglu data**

Fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol dyddiedig 24 Mai, mae gwaith yn parhau i gasglu data, fodd bynnag oherwydd yr heriau diweddar y soniwch amdanynt yn eich llythyr, ar hyn o bryd mae diffyg lle yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer 2022-23 ar gyfer y gwaith angenrheidiol i wneud newidiadau i Reoliadau er mwyn gallu casglu'r data yma. Nid wyf felly'n gallu darparu dyddiad ar gyfer gweithredu casglu data ar hyn o bryd.

Byddaf yn rhoi diweddariad pellach wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**Cymorth i Blant y Lluoedd Arfog**

Mae addysg wedi ei ddatganoli, a dydy Cymru erioed wedi rhoi arian i gefnogi plant y Lluoedd Arfog yn yr un ffordd â Lloegr. Mae'r ddarpariaeth yng Nghymru wedi ei deilwra ac mae'n cyd-fynd yn agos ag ysgolion ac anghenion dysgwyr unigol. Nid yw'n bosib darparu cronfa arddull '*Service Pupil Premium'* ar hyn o bryd gan nad ydym eto'n casglu data ar nifer a lleoliad plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Mae'r data a gasglwyd gan brosiect SSCE Cymru yn dangos bod nifer a demograffeg plant y Lluoedd Arfog Cymru y tu allan i ambell ardal yn brin iawn, gyda llawer o ysgolion ag un neu ddau o blant o'r teuluoedd yma'n unig. Mae hyn yn golygu y byddai '*Service Pupil Premium*' o tua £300 o fudd cyfyngedig i ysgol neu blentyn unigol. Trwy ariannu prosiect SSCE Cymru, mae'r gefnogaeth rydyn ni'n ei ddarparu yn cael ei wneud mewn ffordd fwy holistig ac mae ganddo fudd ehangach i'r plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd.

Does dim Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) wedi ei gwblhau ar gyllid yng Nghymru yn erbyn Lloegr, gan na fu '*Service Pupil Premium'* yng Nghymru erioed. Fodd bynnag, cynhaliwyd AEHP fel rhan o Asesiad Effaith llawn ar gyfer creu cronfa Cefnogi Plant mewn Addysg Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language